# Adroddiad Ymgynghoriad ar y Cynnig i Uno

# Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen

# Conwy

**Chwefror 2025**

**This document is also available in English.**

| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Ymgynghoriad | 3 |
| 2.1 | Cyhoeddi’r Ymgynghoriad | 3 |
| 2.2 | Gwybodaeth i Blant | 4 |
| 3 | Adborth o’r Ymgynghoriad | 7 |
| 3.1 | Adborth Budd-ddeiliaid a’r Gymuned | 8 |
| 3.2 | Adborth ESTYN | 9 |
| 4 | Asesiad o’r Ymgynghoriad | 10 |

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ddiweddar wedi cwblhau cyfnod ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig i uno Ysgol Y Foryd ac Ysgol Maes Owen. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 21 Hydref 2024 a daeth i ben ar 2 Rhagfyr 2024.

Mae'r ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol i God Trefniadaeth Ysgolion gael ei gyflwyno i gyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu) a rhoi arweiniad iddynt.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau a gymerwyd trwy gydol cyfnod yr ymgynghoriad, yn cyfeirio at ganfyddiadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad ac yn ceisio ymateb i ymholiadau.

## 2. Ymgynghoriad

### 2.1 Cyhoeddi'r Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori'n ddwyieithog ar dudalennau gwe Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ynghyd â'r holl ddogfennau eraill sy'n gysylltiedig â'r cynnig. Mae'r tabl isod yn rhestru'r rhai a gafodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion.

| **Enw/Sefydliad** |
|---|
| Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, athrawon a staff Ysgol Y Foryd ac Ysgol Maes Owen |
| Llywodraethwyr Ysgol Y Foryd ac Ysgol Maes Owen |
| Pennaeth a Llywodraethwyr Ysgol Emrys ap Iwan, Ysgol San Siôr ac Ysgol Glan Gele, Ysgol Sant Elfod ac Ysgol Glan Morfa |
| Esgobaeth Llanelwy yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Gatholig Wrecsam |
| Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd |
| Gweinidog Addysg a Sgiliau Cymru |
| Adran Rheoli ac Effeithiolrwydd Ysgolion Llywodraeth Cymru |
| Aelod o'r Senedd ac Aelod Seneddol sy'n cynrychioli ardal y cynigion |
| Cynghorydd (Cynghorwyr) lleol Sir Conwy ar gyfer Tywyn/Bae Cinmel |
| Cyngor Cymuned Bae Cinmel |
| Estyn |
| Undebau Llafur Athrawon a Staff |
| GwE |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy |
| Cymunedau yn Gyntaf Conwy |
| Dechrau'n Deg Conwy |

### 2.2 Gwybodaeth i Blant

Paratowyd Dogfen Ymgynghori i blant er mwyn i'r plant gael cyfle i rannu eu barn am y cynnig i uno Ysgol Y Foryd ac Ysgol Maes Owen.

Rhannwyd Ymgynghoriad y Plant gyda'r disgyblion gan y Pennaeth a'r Athrawon.

Roedd adborth gan y disgyblion yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r cynnig i uno'r ddwy ysgol ac mae eu hymatebion wedi'u nodi yn atodiad 1.

**Ysgol y Foryd**

**ac**

**Ysgol Maes Owen**

Mae ’na gynllun i newid dy ysgol di…

**ac rydyn ni eisiau clywed dy farn di amdano fo…**



## Beth yw’r cynllun?

Y cynllun yw i Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen droi’n un ysgol.

## Pam?

Rydyn ni eisiau ei gwneud hi’n haws i ti symud o un cam o’r ysgol i’r nesaf. Drwy uno’r ysgolion, mi allwn ni gael un pennaeth a thaith ddysgu fwy hwylus i bawb.

## Sut fydd hyn yn helpu?

Bydd uno’r ysgolion yn golygu llawer o bethau positif:

**Dysgu’n fwy hwylus:** Bydd yn haws i ti symud o un flwyddyn i’r nesaf heb unrhyw newidiadau mawr.

**Mwy o gyfleoedd:** Bydd mwy o gyfleoedd i ddysgu pethau newydd.

**Dysgu’n well:** Gallwn ddefnyddio’r syniadau gorau o’r ddwy ysgol i dy helpu di i wneud dy orau.

**Cysylltiadau cryfach:** Bydd yr athrawon yn dy adnabod di am fwy o amser, sy’n eu helpu nhw i ddeall sut i dy gefnogi di’n well.

# Beth fydd yn aros yr un fath?......

**Dy Athrawon:**
Bydd llawer o'r athrawon rwyt ti'n eu hadnabod yn dal yno, i dy helpu i ddysgu a thyfu.

**Dy Ffrindiau:**
Byddi di'n dal i weld dy ffrindiau. Efallai y gwnei di hyd yn oed wneud ffrindiau newydd o'r adeilad arall!

**Lleoliadau'r Ysgol:**
Bydd yr adeiladau rwyt ti'n mynd iddyn nhw i'r ysgol yn aros yr un fath. Bydd dy ddosbarthiadau di yn yr un lle ag roedden nhw'n arfer bod.

**Dysgu a Hwyl:**
Byddi di'n dal i gael gwneud yr un pynciau a gweithgareddau hwyl.

# Beth fydd yn newid?......

**Un Ysgol, Dau Adeilad:** Yn lle dwy ysgol ar wahân, bydd 'na un ysgol fawr sy'n defnyddio'r ddau adeilad.

**Y Pennaeth:** Un pennaeth fydd yn gyfrifol am yr ysgol newydd. Bydd y pennaeth yn helpu i wneud yn siŵr bod pob dim yn hwylus yn yr ysgol.

**Enw Newydd i'r Ysgol a Gwisg Newydd:** Bydd gan yr ysgol newydd enw newydd, logo newydd a gwisg newydd. Bydd pawb yn gwisgo'r un

**Gweithgareddau ar y Cyd:** Bydd mwy o gyfleoedd i wneud gweithgareddau gyda phlant o'r ddau adeilad. Mae hyn yn golygu y byddi di'n gallu gwneud ffrindiau newydd a dysgu gyda'ch gilydd.

## Camau Nesaf

## Oes gen ti unrhyw gwestiynau?

Fe alli di siarad gyda dy athrawon i rannu dy farn a gofyn cwestiynau a byddant yn pasio'r rhain ymlaen at y Cynghorwyr fydd yn penderfynu beth sy'n digwydd nesaf.

## Diolch/ Thank you…




## 3. Adborth o'r Ymgynghoriad

Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, cafodd Gwasanaethau Addysg Conwy 40 ymateb. Mae'r tablau isod yn rhoi dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd.

Sylwer bod manylion yr ymgynghoriad ar gael yma: (link)

| Fformat yr ymateb | Nifer yr ymatebion a gafwyd |
|---|---|
| Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad | 40 |
| **Cyfanswm a gafwyd** | **40** |

| Ymatebion wedi'u rhoi gan | Nifer yr ymatebion a gafwyd |
|---|---|
| Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion | 33 |
| Staff yn un o'r ysgolion | 4 |
| Aelod o'r gymuned | 1 |
| Llywodraethwr ysgol | 1 |
| Disgybl | 1 |
| **Cyfanswm** | **40** |




O'r 40 o ymatebion a gafwyd, nid oedd 17 o blaid y cynnig i uno ac maent wedi'u dadansoddi'n grwpiau yn y tabl isod. Fe wnaeth y rhai nad oeddent yn cytuno â'r cynnig godi pryderon ynglŷn â thoriadau posib' i staffio a chyllidebau o ganlyniad i uno, ynghyd â'r angen am sicrhau arweinyddiaeth effeithiol.

| Ymatebion wedi'u rhoi gan | Nifer yr ymatebion a gafwyd |
|---|---|
| Rhiant plentyn sydd yn un o'r ysgolion | 12 |
| Aelod o staff yn un o'r ysgolion dan sylw | 3 |
| Aelod o'r gymuned. | 1 |
| Disgybl | 1 |
| **Cyfanswm** | **17** |

### 3.1 Adborth Budd-ddeiliaid a'r Gymuned

Roedd yr adborth a gafwyd gan rieni, llywodraethwyr ac aelodau'r gymuned ehangach ar y cyfan yn cytuno â'r cynnig i uno. Mae themâu bras o'r adborth i'w gweld isod:

| Sylwadau o blaid y cynnig | Sylwadau yn erbyn y cynnig |
|---|---|
| Cysondeb a datblygiad<br><br>Parhad a sefydlogrwydd<br><br>Cyfleoedd ar gyfer arbedion ariannol<br>Gweledigaeth a gwerthoedd a rennir<br>Proses bontio esmwyth drwy addysg | Ansawdd, gwerthoedd a safonau anghyson (addysgol a gweithredol)<br>Pryderon am gyllid - dim digon o gyllid i ddiwallu anghenion a darparu arbenigedd addas o ran oedran<br>Pryderon o ran arweinyddiaeth a phenodi pennaeth ar gyfer yr ysgol newydd |

**Mae enghreifftiau o rai o'r sylwadau cadarnhaol isod:**

- *"Byddai hyn yn creu profiad dysgu gwell i'r plant wrth iddynt symud yn naturiol o'r ysgol fabanod i'r ysgol iau heb y cyfnod pontio sy'n ansefydlogi'r plentyn, byddai aros yn yr un amgylchedd o ddosbarth meithrin i flwyddyn 6 yn darparu sefydlogrwydd."*

- *"Bydd hyn yn beth da oherwydd bydd y gyllideb yn well i ddarparu cyflenwadau ysgol a chyfleoedd gwell i staff a myfyrwyr."*

- *"Syniad gwych, mae'n sicrhau proses bontio esmwyth wrth symud o'r ysgol fabanod i'r ysgol iau."*

- *"Rydw i'n cytuno y gallai uno greu lle mwy diogel a sefydlog i blant o bob oed."*

- *"Oherwydd bod Ysgol Y Foryd a Maes Owen mor agos, drwy eu cyfuno bydd plant yn fwy cyfforddus gyda'r broses bontio a gall cyfuno syniadau'r athrawon gyfrannu at greu ysgol wych."*

**Mae enghreifftiau o rai o'r sylwadau oedd yn mynegi pryder gydag ymatebion cychwynnol lefel uchel i'w gweld isod:**

| | |
|---|---|
| *"Rydw i'n meddwl y dylai bob ysgol weithio ar wahân a chanolbwyntio ar y cwricwlwm/oedrannau y maent orau arnynt. Rydw i'n credu y bydd uno yn niweidiol i'r myfyrwyr a'r gyfadran. Mae gen i eisoes amheuon cryf ynglŷn ag argaeledd cyllid a chefnogaeth ar gyfer ysgolion yn y sir hon, dim ond gwaethygu y byddai hyn yn ei wneud gyda strwythur llai a llai o ffocws ar y rhai sy'n bwysig - y plant."* | **Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i ddylunio o amgylch cynnydd bob plentyn unigol. Mae'r pwynt pontio o symud o ddarpariaeth fabanod i ddarpariaeth plant iau'n mynd yn groes i hyn i raddau ac mae'n golygu bod angen rhoi barn fel asesiad crynodol ar y disgybl wrth iddynt symud.**<br><br>**Mae hyfforddiant i athrawon yn canolbwyntio ar sector; naill ai cynradd neu uwchradd, felly mae'r holl athrawon ar draws y ddwy ysgol wedi'u hyfforddi ac mae ganddynt brofiad o addysgu ar draws y continwwm 3-11.** |
| *"Rydw i'n teimlo y bydd cyllidebau yn cael eu hymestyn fwy fyth, mae adeiladau yn dadfeilio ac mae arnynt angen llawer o waith ond ni fydd y cyllidebau gyda'i gilydd yn caniatáu ar gyfer y gwaith hwn."* | **Mae Conwy wedi ymrwymo i ystyried unrhyw waith neu ddiweddariadau angenrheidiol i ysgolion, yn amodol ar y gyllideb, fel rhan o'r prosesau rheoli safle parhaus a'r rhaglen Atgyweirio a Chynnal a Chadw.** |

| | |
|---|---|
| *"Rydw i'n teimlo y bydd y newid mawr yn rhoi'r myfyrwyr gam yn ôl pan maent yn gorfod delio gyda digon o newid yn barod."* | **Bydd y Gwasanaeth Gwella Addysg yn parhau i weithio'n agos gyda'r ddwy ysgol cyn uno a gyda'r ysgol newydd i sicrhau ansawdd yr addysg. Ni ddylai hyn gael unrhyw effaith andwyol ar ddysgwyr fel y nodwyd gan Estyn yn eu hadborth.** |
| *"Mae'n ymwneud ag arbed arian, ond mae'n rhaid parhau i fuddsoddi yn y ddwy ysgol er mwyn cynnal a chadw'r adeilad, staff ac adnoddau - bydd hyn ond yn gwaethygu ar ôl uno oherwydd y bydd angen i ni reoli'r ddwy ysgol gyda'i gilydd gydag un gyllideb. Yn ôl pob golwg, byddwn ond yn arbed ar gyflog Pennaeth drwy uno, siawns y gellid canfod y gost hon er mwyn i ni gael aros fel yr ydym."* | **Mae cyfleodd i wneud arbedion mewn perthynas ag arwain a rhedeg un ysgol tu hwnt i gael un pennaeth. Bydd y Corff Llywodraethu Dros Dro yn gyfrifol am y manylion a'r gwaith cynllunio mewn perthynas â hyn os bydd y cynnig i uno yn cael ei gymeradwyo.** |
| *"O edrych ar y ddogfen ymgynghori, mae'n amlwg y bydd y ddwy ysgol mewn sefyllfa waeth yn ariannol ar ôl uno oherwydd toriadau - tydi hyn ddim yn gwneud synnwyr! Mae'r ddwy ysgol eisoes yn cael trafferth gyda'u cyllidebau a gallu darparu'r safonau gorau posibl i'r holl ddisgyblion gyda'r cyllidebau sydd ganddynt ar hyn o bryd. Mae'r ddau adeilad yn hen ac angen eu diweddaru r mwyn eu gwneud yn addas i'r diben - pe bai adeilad newydd yn cael ei adeiladu, yna byddai hyn yn gwneud rhywfaint o synnwyr, ond fel y mae yr unig beth sy'n newid yw enw'r ysgol a cholli pennaeth!"* | **Mae cyfleodd i wneud arbedion mewn perthynas ag arwain a rhedeg un ysgol tu hwnt i gael un pennaeth. Bydd y Corff Llywodraethu Dros Dro yn gyfrifol am y manylion a'r gwaith cynllunio mewn perthynas â hyn os bydd y cynnig i uno yn cael ei gymeradwyo.**<br><br>**Yn anffodus, nid yw'n bosib darparu'r cynnig hwn i gyfuno mewn adeilad ysgol newydd ar hyn o bryd, fodd bynnag, bydd unrhyw waith angenrheidiol yn cael ei ystyried fel rhan o'r prosesau rheoli safle yn y dyfodol a'r rhaglen Atgyweirio a Chynnal a Chadw yn amodol ar y gyllideb.** |
| *"Mae'r plant eisoes yn dioddef ddigon o orfod rhannu eu dosbarthiadau gyda phlant nad ydynt yn eu grŵp oedran. Teimlaf fod fy mhlentyn eisoes ar ei hôl hi mewn rhai meysydd oherwydd ei fod yn gorfod rhannu dosbarth gyda'r plant iau. Beth sydd i ddweud na fydd ei addysg yn cael ei heffeithio fwy fyth drwy uno.* | **Nid oes tystiolaeth ffurfiol i awgrymu bod addysg mewn dosbarthiadau blynyddoedd cymysg yn niweidiol i ddysgwyr.** |

I grynhoi, mae gwybodaeth ynglŷn â staffio a chyllidebau wedi cael sylw yn y ddogfen ymgynghori. Mae gwybodaeth ynglŷn â phenodi penaethiaid wedi cael ei rhannu gyda'r ddau gorff llywodraethu a bydd hyn yn fater i'r Corff Llywodraethu Dros Dro os fydd y cynnig yn symud ymlaen. Mae Conwy wedi ymrwymo i weithio'n agos gydag ysgolion, staff a'r gymuned i sicrhau proses bontio esmwyth ac i gynnal safonau uchel o addysg a chefnogaeth i bob disgybl os yw'r cynnig hwn yn symud ymlaen.

### 3.2 Adborth ESTYN

Mae Conwy'n croesawu ymateb Estyn i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r cynnig i uno Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen. Rydym yn gwerthfawrogi adolygiad trylwyr Estyn a'u barn *"bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf."*

Mae eu sylwadau, ac ymateb Conwy wedi'u nodi isod.

| ESTYN | Eglurhad CBSC |
|---|---|
| **Effaith ar Staff** | |
| *"Mae'n ymddangos mai prif her y cynnig yw'r effaith ar staff, yn cynnwys adleoli a diswyddo* | Mae'n anodd darparu niferoedd penodol ar y cam hwn oherwydd bydd y niferoedd yn dibynnu |

| | |
|---|---|
| *posibl. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor yn rhoi unrhyw fanylion pellach o ran y nifer a'r math o staff a effeithir gan y newidiadau."* | ar y penderfyniadau a wnaed gan y Corff Llywodraethu Dros Dro a'r Pennaeth ynglŷn â'r strwythur staffio os yw'r cynnig i gyfuno yn symud ymlaen. Mae Conwy'n deall ac yn gwerthfawrogi'r heriau posibl ond yn hyderus bod ein timau Addysg ac Adnoddau Dynol wedi'u paratoi'n dda i helpu'r Corff Llywodraethu a'r Pennaeth i reoli'r broses hon yn effeithiol. Mae cyfathrebu clir yn hanfodol ar gyfer llwyddiant pontio. |
| **Ansawdd yr Arweinyddiaeth** | |
| *"Er bod y sylwadau ar ganlyniadau, darpariaeth a'r cwricwlwm yn ymddangos yn deg a phriodol, nid yw goblygiadau'r cynnig ar arweinyddiaeth wedi'u harchwilio'n llawn. Nid yw'r cynigydd wedi cynnwys safbwynt yr awdurdod lleol ar ansawdd presennol arweinyddiaeth a rheolaeth y ddwy ysgol."* | Rydym yn cydnabod yr adborth ynglŷn â'r goblygiadau o ran arweinyddiaeth, yn cynnwys y pryderon a godwyd gan rieni fel rhan o'r ymgynghoriad. Mae Conwy eisoes yn monitro ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn agos ac yn cydweithio gyda'r ddwy ysgol. Bydd y manylion yn cael eu harchwilio ymhellach wrth i'r cynnig ddatblygu. |
| **Anghenion Dysgu Ychwanegol** | |
| *"Mae'r cyngor wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i ystyried effaith y cynnig ar y nodweddion gwarchodedig. O ganlyniad i'r asesiad hwn, mae wedi dod i'r casgliad bod y cynnig yn annhebygol o gael unrhyw effaith ar y nodweddion gwarchodedig. Y prif reswm am hyn yw y byddai disgyblion yn aros ar yr un safle ac felly dim ond newidiadau cyfyngedig fyddai'n cael eu gwneud i'w trefniadau dyddiol. Mae'r asesiad yn cynnwys grwpiau diamddiffyn, yn cynnwys plant gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ond nid yw'n cynnwys digon o wybodaeth yn y maes hwn."* | Mae'r adroddiad yn nodi bod gan yr ysgolion 10% a 19% o ddisgyblion gydag ADY yn y drefn honno, o gymharu â chyfartaledd Conwy o 16.1%.<br>Mae Conwy wedi ymrwymo i gefnogi grwpiau diamddiffyn mewn addysg ac yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Cynhwysiant ADY i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol ac mae hyn yn cael ei gefnogi gan arolwg Estyn a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2023 sy'n nodi:<br>*"Mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n cynorthwyo disgyblion ag ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn ysgolion prif ffrwd yn dda."*<br>Bydd Conwy'n parhau i weithio'n agos gyda phob ysgol i gefnogi disgyblion o grwpiau diamddiffyn a'r rhai hynny gydag anghenion dysgu ychwanegol. |

Gellir gweld yr ymateb llawn a gafwyd gan ESTYN yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

**4. Asesiad o'r Ymgynghoriad**

Ar ôl ystyried yr ymatebion a'r sylwadau a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, y cynnig i uno yw'r datrysiad mwyaf priodol ar gyfer Towyn a Bae Cinmel o hyd. Y dewis amgen yw cadw'r drefn bresennol o fod â dwy ysgol ar wahân.

Nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i chyflwyno yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad a oedd yn golygu bod angen newid dogfen yr ymgynghoriad.

Argymhelliad yr adroddiad hwn yw y dylid cyhoeddi hysbysiad statudol, fel yr ymgynghorwyd arno heb unrhyw newidiadau, i barhau â'r cynnig hwn.

**Atodiad 1 – Ymatebion Disgyblion** (*mae enwau'r disgyblion wedi cael eu golygu)*.

**Sylwadau:**

- *'Dw i'n meddwl ei fod yn syniad gwych oherwydd ein bod yn cael gweld ein brodyr a chwiorydd iau.*
- *Rydw i'n meddwl y byddai'n dda i ddysgu gyda'n gilydd a gan ein gilydd.*
- *Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn syniad da, bydd y plant yn dal angen pontio oherwydd ni fyddant yn gweld athrawon MO.*
- *Rydw i'n meddwl y byddai'n syniad da oherwydd fe allai gwaith y babanod ddod yn fwy heriol.*
- *Fel argymhelliad, rydw i'n meddwl y dylech gael dau arweinydd, un ym mhob adeilad.*
- *Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn syniad da, mae'r broses bontio yn rhoi hwb i'w hyder.*
- *Rydw i'n meddwl y byddai'n wych. Gall y Cymorthyddion Addysgu weithio yn yr holl ddosbarthiadau.*
- *Rydw i'n meddwl ei fod yn syniad da oherwydd y gallem gymysgu'r dosbarthiadau.*
- *Fe allai amser egwyl fod yn wych ac yn gyfle i chwarae gyda'r plant iau.*
- *Fe allai fod yn gostus i'r rhai hynny sydd angen prynu gwisg ysgol newydd.*
- *Pe byddem yn uno'r wisg ysgol, rydw i'n meddwl y dylai fod yn biws oherwydd bod cymysgu coch a glas gyda'i gilydd yn gwneud piws.*
- *'Dw i'n meddwl y dylid galw'r ysgol newydd yn Maes Foryd.*
- *Syniad da. Gallem fynd i bob ysgol ar gyfer cyfarfodydd, gwasanaethau ac i gyfarfod plant eraill.*
- Syniad da. Os yw eich ffrindiau yn yr ysgol arall, mae gennych fwy o gyfleoedd i'w cyfarfod a chwarae gyda nhw.
- *Syniad gwych. Bydd yn haws i gael un ysgol gyda'i gilydd.*
- *Syniad gwych. Os oes gennym yr un wisg, mae'n haws i ni fod yn un ysgol fawr.*
- *Syniad da. Bydd gennym yr un pennaeth a bydd yn haws i symud o flwyddyn 2 i flwyddyn 3.*
- *Syniad da. Mae gennym fwy o gyfleoedd i ddangos ein gwaith i'r ysgol gyfan.*
- *Mae'n swnio'n dda!*
- *Mae'n swnio'n gyffrous!*
- *Dydw i ddim yn gwybod os bydd yn dal i deimlo fel ein hysgol os ydym yn uno.*
- *'Dw i'n teimlo'n nerfus.*
- *Mae gen i ofn.*
- *Mae ychydig yn ddryslyd.*
- *Da a drwg. Mae'n dda achos gallwn weld y ffrindiau y gwnaethom ym mlwyddyn 1 a blwyddyn 2. Mae'n ddrwg achos bod ein rhieni eisoes wedi talu am ein gwisg ysgol.*

**Cwestiynau:**

- *Pam bod angen i ni newid ein gwisg?*
- *Pam bod angen i ni newid y logo a'r enw?*
- *A fyddai modd i bawb gael gwisg MO?*
- *A fyddai'n bosib i ni gael dau bennaeth?*
- *Allwn ni gael siacedi?*
- *A fyddai'n bosib peidio â chael dau bennaeth, rydym angen un er mwyn gwneud i'r ddwy ysgol deimlo fel un?*
- *A fyddai modd i ni gael gwisg sy'n hanner glas a hanner coch? Byddai'n ei gwneud ni'n unigryw.*
- *Pryd fydd hyn yn digwydd?*
- *Ble fydd y neuadd - ai dim ond un fyddwn yn ei chael?*
- *A fydd gennym ddigon o offer?*
- *A fydd ein hathrawon i gyd yn dal yma?*
- *Pa logo fydd yr ysgol newydd yn ei ddefnyddio?*
- *A fyddwn yn cael cadw MO, ci'r ysgol?*
- *Beth fydd lliw'r wisg?*
- *A fyddwn yn cael cadw ein lle chwarae?*
- *Beth fydd enw'r ysgol?*

## Atodiad 2 - Ymateb ESTYN

### Ymateb Estyn i'r cynnig i uno Ysgol y Foryd (Babanod) ac Ysgol Maes Owen (Iau)

### Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

### Crynodeb/Casgliad

Mae'r cynnig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i uno Ysgol y Foryd (Babanod) ac Ysgol Maes Owen (Iau) yn ffurfiol.

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal safon darpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf.

### Disgrifiad a manteision

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno sail resymegol addas sy'n amlinellu'r rhesymau dros y cynnig. Byddai'r ysgol newydd arfaethedig wedi'i lleoli ar ddau safle ar wahân o hyd, dan arweinyddiaeth un pennaeth a bwrdd llywodraethwyr, ond gyda strwythur rheoli, datganiad o genhadaeth, gwerthoedd ysgol, logos, gwisg ysgol, polisïau a gweithdrefnau unedig. Ystyriwyd y cynnig gwreiddiol i uno'r ddwy ysgol a symud y ddwy ohonynt i adeilad newydd fel rhan o ymarfer blaenoriaethu ar gyfer pob prosiect Band B. Fodd bynnag, oherwydd risgiau ariannol, cytunodd y Cabinet (10 Hydref 2023) i beidio â symud ymlaen â'r adeilad newydd.

Mae'r Cyngor wedi darparu disgrifiad addas o fanwl o'r cynnig. Mae wedi cyflwyno

cefndir i'r cynnig ac wedi cynnwys amserlen amcangyfrifedig ar gyfer gweithdrefnau statudol. Os caiff y cynnig ei gytuno, bydd yr ysgol wedi'i huno yn agor ym mis Medi 2026.

Mae'r Cyngor wedi amlinellu manteision ac anfanteision y cynnig hwn yn briodol. Mae'n ymddangos mai un o brif fanteision y cynnig yw'r elfen uno, gyda pholisïau a strwythurau symlach, parhad addysg i ddisgyblion ac un pwynt cyswllt i rieni. Mae'r cynigiwr hefyd yn manylu ar yr effaith gadarnhaol y bydd yr uno yn ei chael ar gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol gwell. Ymddengys mai prif her y cynnig yw'r effaith ar staff, gan gynnwys adleoli a diswyddiadau posibl. Fodd bynnag, nid

yw'r Cyngor yn rhoi rhagor o fanylion am nifer na math y staff y bydd y newidiadau yn effeithio arnynt.

O ystyried y penderfynwyd nad oedd y cynnig gwreiddiol i uno'r ysgolion ac adeiladu ysgol newydd yn fforddiadwy'n ariannol ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wedi ystyried un opsiwn amgen arall, sef cynnal y sefyllfa bresennol a chadw'r ysgolion fel ysgol fabanod ac ysgol iau. Mae'r cynnig yn rhoi cymhariaeth deg a chlir o fanteision ac anfanteision disgwyliedig uno'r ysgolion, o gymharu â chynnal y sefyllfa bresennol.

Mae Gwasanaethau Addysg Conwy yn nodi un risg yn ymwneud â'r cynnig. Mae hyn yn amlinellu'r posibilrwydd na fydd Cabinet y Cyngor yn cefnogi nac yn cymeradwyo'r cynnig. Er mwyn lleddfu'r risg hon, bydd aelodau'r Cabinet yn cael diweddariadau ar gynnydd y cynnig trwy brosesau democrataidd.

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith y cynnig ar drefniadau cludiant. Dan bolisi cludiant y Cyngor, caiff cludiant am ddim ei ddarparu ar gyfer disgyblion ysgol gynradd sy'n byw dros ddwy filltir o'u hysgol briodol agosaf. Gan y bydd lleoliad adeiladau'r ysgol yn aros fel y mae, ni fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth gludiant bresennol.

Mae'r Cyngor wedi dangos sefyllfa'r ysgolion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol o ran nifer y lleoedd gwag yn addas. Ar hyn o bryd, mae lleoedd gwag yn y ddwy ysgol. Mae gan Ysgol y Foryd le ar gyfer 201 o ddisgyblion rhwng pedair a saith oed, a nifer y disgyblion ar hyn o bryd yw 165. Mae nifer y disgyblion dros y pum mlynedd

diwethaf a’r rhagamcanion ar gyfer y dyfodol yn sylweddol is na hyn, sef 153 o ddisgyblion ar gyfartaledd. Mae gan Ysgol Maes Owen le ar gyfer 265 o ddisgyblion rhwng saith ac un ar ddeg oed, ac mae 208 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Yn yr un modd, mae nifer flaenorol y disgyblion a’r rhagamcanion yn dangos dirywiad sylweddol, gyda 219 o ddisgyblion ar y gofrestr ar gyfartaledd. Mae’r cynnig yn amlygu y bydd y grwpiau addysgu yn yr ysgolion wedi’u huno o fewn y terfyn statudol o hyd, sef 30 o ddisgyblion.

Mae’r cynnig yn rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol ac i ba raddau y mae’r cynnig yn cefnogi’r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Mae’r Cyngor wedi cynnal asesiad o’r effaith ar y Gymraeg a dywed na fydd uno’n ffurfiol yn cael effaith negyddol ar ddefnyddio’r Gymraeg.

Mae’r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned fel rhan o’r cynnig hwn.

Mae’r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i oblygiadau ariannol y cynnig. Dywed mai un o fanteision uno yw cyllid cyfartal i ddisgyblion, gyda’r gost fesul disgyblion ar gyfer ardal Towyn/Bae Cinmel yn cael ei rhesymoli. Fodd bynnag, mae’n nodi y bydd cyllideb gyffredinol yr ysgol gyfunol yn gostwng 3% i £1,776,448. I gefnogi’r ysgol newydd ac osgoi straen ariannol, bydd yn cael diogelwch trosiannol am 3 blynedd. Ymddengys bod y trefniant dros dro hwn yn dangos bod y Cyngor wedi darparu mesurau lliniaru addas yn erbyn risgiau posibl.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae’r Cyngor yn ystyried effaith y cynigion yn briodol ar ansawdd a safonau mewn addysg, gan gynnwys safonau disgyblion, lles, addysgu a phrofiadau dysgu, gofal, cymorth ac arweiniad ac agweddau penodol ar arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae’r cynnig yn cynnwys crynodeb o ddeilliannau arolygiadau Estyn y ddwy ysgol. Cafodd Ysgol y Foryd farnau rhagorol ar draws pob maes arolygu (2019). Yn ei arolygiad

diweddaraf (2023), cafodd Ysgol Maes Owen dri argymhelliad, gan gynnwys un i gryfhau darpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'r naill ysgol na'r llall mewn categori statudol ar hyn o bryd. Mae'r cynigiwr yn nodi y bydd yr uno'n cryfhau'r dulliau o fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiadau craidd. Mae'r cynnig yn defnyddio datganiadau cadarnhaol o'r ddau adroddiad Estyn i amlygu priodoldeb y cwricwlwm sydd ar gael yn y ddwy ysgol.

Mae'r cynnig yn rhoi crynodeb clir o fanteision posibl cydweithredu. Er enghraifft, mae'r cynnig yn nodi y byddai uno'n caniatáu gofal bugeiliol cyson o 3-11 oed, ynghyd â gallu gwell i rannu arfer orau yn y Gymraeg. Er bod y sylwadau ar ddeilliannau, darpariaeth a'r cwricwlwm yn ymddangos yn deg ac yn briodol, ni chaiff goblygiadau'r cynnig ar arweinyddiaeth eu harchwilio'n llawn. Nid yw'r cynigiwr wedi cynnwys barn yr awdurdod lleol ar ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y ddwy ysgol ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i ystyried effaith y cynnig ar nodweddion gwarchodedig. O ganlyniad i'r asesiad hwn, daeth i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith ar nodweddion gwarchodedig. Y prif reswm am hyn yw y byddai disgyblion yn aros ar yr un safle ac felly y byddai newidiadau cyfyngedig i'w trefn ddyddiol. Mae'r asesiad yn cynnwys grwpiau bregus, gan gynnwys plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ond nid yw'n rhoi digon o wybodaeth am y maes hwn.

Gan na fyddai'r uno arfaethedig yn arwain at unrhyw newid i leoliad safle'r ysgol, mae'r ysgol yn rhagweld na fydd y trefniadau'n cael effaith andwyol ar ddisgyblion. Ymddengys fod yr asesiad hwn yn deg a rhesymol.